Disgrifiad o'r Swydd

Teitl y Swydd: Cydgysylltydd Cymunedol

Cyflog: £14,664 y flwyddyn ar drefniant PAYE

Oriau Gwaith: Rhan amser, 20 awr yr wythnos

Gwyliau: 14 diwrnod y flwyddyn, yn cynnwys gwyliau banc

Contract: Mae hwn yn gontract cyfnod penodol am ddwy flynedd gyda'r posibilrwydd o'i ymestyn

Lleoliad: Caerdydd

Gair am NoFit State

NoFit State yw'r prif gwmni syrcas gyfoes yn y Deyrnas Unedig sy'n gwneud sioeau ar raddfa fawr. Mae'n cynhyrchu sioeau teithiol proffesiynol a phob math o brosiectau cymunedol, addysgol, a hyfforddiant i bobl o bob oed. Dros y deng mlynedd diwethaf bu cynyrchiadau teithiol NoFit State mewn 19 o wledydd, gan berfformio i gynulleidfaoedd o dros 1.6 miliwn. Cawsant eu canmol gan adolygwyr ac ennill nifer fawr o wobrau rhyngwladol o bwys. Mae Rhaglen Gymunedol NoFit State wedi hen ennill ei phlwyf. Mae'r cwmni'n credu'n gryf mewn datblygiad cymunedol ac mae'r partneriaethau clòs sydd ganddo yn Nwyrain Caerdydd wedi arwain at gyflwyno rhaglen o gelfyddydau creadigol a syrcas wedi'u cyd-greu ar raddfa fawr, yn cynnwys digwyddiadau awyr agored.

Y Rhaglen Gymunedol

Mae Rhaglen Gymunedol NoFit State yn cynnig:

- gweithgareddau a digwyddiadau syrcas gymunedol a chyfranogiad creadigol, am ddim, yng nghanolfannau partneriaid a mannau awyr agored ledled cymunedau Sblot, Adamsdown a Thremorfa
- dosbarthiadau syrcas cymunedol am dâl yn ein prif adeilad, Four Elms,
- cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol hyfforddwyr ac artistiaid a lle ar gyfer hyfforddiant proffesiynol.

Rydym yn cefnogi Partneriaeth y Filltir Sgwâr; gynghrair rymus o sefydliadau cymunedol, cymdeithasau tai, ysgolion, artistiaid, ymgyrchwyr a gwasanaethau statudol sy'n cynnwys Heddlu De Cymru. Gyda'n gilydd, rydym yn cyd-ddylunio rhaglen greadigol gymunedol sy'n cyfarfod â phobl mewn parciau, canolfannau lleol ac ar eu strydoedd, gan chwalu rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan yn y celfyddydau a hawlio mannau cyhoeddus a llecynnau agored yn ôl trwy ddigwyddiadau awyr agored canolig neu fawr.

Mae NoFit yn credu'n angerddol y dylai trigolion lleol deimlo'n rhan o'r gymuned ac mae Four Elms yn ofod cynhwysol lle gall aelodau ein cymuned ddatblygu cysylltiadau a chyfrannu at yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Mae'n bwysig felly bod y sawl a benodir yn gallu dod i mewn i'r adeilad hwn i weithio.

Y rôl

Mae'r Cydgysylltydd Cymunedol yn rhoi cymorth gweinyddol a chymorth ar brosiectau i'r Rhaglen Gymunedol y gellir cymryd rhan ynddi am ddim. Mae hefyd yn meithrin ac yn cynnal y cysylltiadau dydd-i-ddydd sy'n gwneud ein gwaith ein gwaith partneriaeth ac estyn allan yn bosibl.

Mae hon yn swydd wyneb-yn-wyneb. Byddwch yn rhan o swyddfa brysur, cynllun agored mewn adeilad cymunedol bywiog, gan gefnogi rhaglen fawr ac amrywiol o waith cymunedol. Byddwch yn cydweithio ag ystod eang o bobl a sefydliadau, yn cynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches, pobl mewn tai â chymorth, a chymunedau eraill sy'n cael eu tanwasanaethu neu eu cau allan o'r sector diwylliannol.

Rheolwr y Prosiectau Cymunedol, sy'n gyfrifol am reoli'r prosiectau a'r rhaglen yn gyffredinol, yw rheolwr llinell y Cydgysylltydd Cymunedol. Mae'r swydd hon yn canolbwyntio ar y gwaith gweinyddol, cydgysylltu a rhwydweithio sy'n sail i'r gwaith hwnnw.

Prif Gyfrifoldebau

Mae hon yn rôl allweddol yn y Tîm Cymunedol, gan ei bod yn sicrhau bod popeth yn rhedeg yn esmwyth o ran agweddau gweithredol a pherthnasoedd yn y rhaglen sydd ar gael am ddim.

Cymorth â phrosiectau a chymorth gweinyddol

- Rhoi cymorth gweinyddol i dîm y Rhaglen Gymunedol, yn cynnwys diweddaru a threfnu amserlenni'r rhaglen, trefnu cyfarfodydd a chymryd cofnodion, helpu gyda logisteg prosiectau a digwyddiadau.
- Cefnogi Rheolwr y Prosiectau Cymunedol â thasgau gweinyddu prosiectau, fel cadw cofnodion, mewnbynnu data, cyllidebau a chasglu gwybodaeth ar gyfer adroddiadau i gyllidwyr ac adroddiadau gwerthuso.
- Defnyddio systemau TGCh yn effeithiol i greu a chynnal gwaith o safon uchel gan ddefnyddio Microsoft Office a Canva, yn cynnwys deunyddiau hyrwyddo a marchnata.
- Cynnal a churadu sianeli cyfryngau cymdeithasol y gymuned gyda gwybodaeth am brosiectau a phartneriaid.
- Casglu a chynnal data, gan gynnwys adborth a gwybodaeth werthuso gan y tîm cymunedol, aelodau'r gymuned, partneriaid ac artistiaid llawrydd.

Rhwydweithio â phartneriaid ac yn y gymuned

- Cefnogi gwaith meithrin a chynnal perthnasoedd gyda gwahanol bartneriaid cymunedol, yn cynnwys cymdeithasau tai, darparwyr tai â chymorth, sefydliadau cymorth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, ysgolion a sefydliadau trydydd sector eraill.
- Bod yn bwynt cyswllt allweddol ar gyfer aelodau'r gymuned, partneriaid, artistiaid llawrydd a hyfforddwyr, rhannu gwybodaeth, cydgysylltu cyfarfodydd, digwyddiadau a chasglu adborth.
- Cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen syrcas, sydd ar gael am ddim, yn adeilad NoFit State ac mewn lleoliadau partner a mannau cymunedol awyr agored.

- Cynrychioli NoFit State mewn ffordd gadarnhaol mewn rhwydweithiau partneriaid fel Partneriaeth y Filltir Sgwâr a'r Play Action Group a chefnogi gwaith Rheolwr y Prosiectau Cymunedol o ran gweithio mewn partneriaethau.

Trafod adnoddau a gwaith tîm

- Archebu ystafelloedd a lleoliadau ar gyfer dosbarthiadau, sesiynau, cyfarfodydd a hyfforddiant yn ôl yr angen.
- Archebu, olrhain a chynnal a chadw offer a ddefnyddir ar y rhaglen gymunedol.
- Cysylltu â Hyfforddwyr Artistiaid Syrcas Cynhwysol, Cefnogwyr Cymunedol ac artistiaid llawrydd ynghylch archebion, amserlenni, logisteg sesiynau ac ymholiadau o ddydd i ddydd.

Digwyddiadau

- Helpu i gynllunio a chynnal digwyddiadau cymunedol yn adeilad NFS, yng nghanolfannau partneriaid cymunedol ac yn yr awyr agored. Mae hyn yn golygu helpu â'r logisteg, yn cynnwys gwaith ymarferol a chorfforol.

Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'n rhesymol gofyn amdanynt.

Nid yw hon yn rhestr derfynol a gallai'ch rheolwr llinell wneud newidiadau iddi yn dilyn trafodaethau naill ai yn eich cyfarfod gwerthuso neu mewn cyfarfod arall priodol.

Manyleb y Person

- Rydych yn gallu gwneud tasgau gweinyddol a dangos y sgiliau perthynas sy'n angenrheidiol ar gyfer gwaith tîm a chefnogi partneriaethau.
- Rydych yn ffynnu ar amrywiaeth o dasgau.
- Rydych yn rhwydweithiwr cymunedol naturiol, yn gallu meithrin perthnasoedd ag ystod eang o bobl a sefydliadau.
- Rydych yn ddeinamig ac yn hyblyg, yn gallu ymateb yn gadarnhaol pan fydd pethau'n symud ac yn newid yn gyflym.
- Rydych yn gallu gweithio mewn swyddfa brysur, cynllun agored mewn adeilad cymunedol bywiog.
- Rydych yn gallu dangos y sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i weithio gyda chymunedau llawn amrywiaeth, yn cynnwys pobl sy'n wynebu anfantais neu allgáu.
- Rydych yn drefnus ac yn gallu rheoli sawl ffrwd waith ar y tro, gyda sgiliau gweinyddu effeithlon a sylw da i fanylion.
- Rydych yn cofleidio diwylliant cynhwysol, gan werthfawrogi tegwch, parch, cydraddoldeb, amrywiaeth ac ymgysylltiad.
- Rydych yn dda am ddatrys problemau ac yn gallu gweithio o'ch pen a'ch pastwn eich hunan.

Sgiliau, nodweddion a phrofiad hanfodol	**Sgiliau, nodweddion a phrofiad dymunol**
Hyderus a medrus yn defnyddio cyfrifiaduron a gwahanol becynnau TG, yn cynnwys pecynnau Microsoft e.e. Excel, Word, SharePoint, Outlook Hyderus a medrus yn defnyddio sianeli'r cyfryngau cymdeithasol	Profiad o ddefnyddio cronfa ddata a/neu system CRM
Profiad o roi cymorth gweinyddol a gweithredol ar gyfer prosiectau mewn swyddfa brysur neu leoliad cymunedol Sgiliau trefnu da, gallu rheoli llwyth gwaith amrywiol sy'n newid yn aml, gyda llawer yn digwydd ar yr un pryd	Profiad o weithio ym maes syrcas, y celfyddydau a/neu sefydliad cymunedol
Hyderus wrth drafod a chyfathrebu'n glir er mwyn meithrin perthnasoedd ag ystod eang o bartneriaid, artistiaid llawrydd a hyfforddwyr syrcas Rhwydweithiwr cymunedol sy'n gallu meithrin a chynnal partneriaethau Profiad o weithio ym maes celfyddydau'r syrcas neu fath arall o gelfyddyd greadigol	Dealltwriaeth o'r sector cymunedol, gwirfoddol neu'r trydydd sector yng Nghaerdydd Eisoes yn ymwneud â sefydliadau cymunedol, tai neu gymorth yn yr ardal
Hyderus wrth ymwneud â chymunedau llawn amrywiaeth, yn cynnwys pobl sy'n wynebu anfantais neu allgáu, er enghraifft ffoaduriaid a cheiswyr lloches, a phobl sy'n byw mewn tai â chymorth Ymrwymiad i ffyrdd cynhwysol o weithio, wedi'u cyd-gynhyrchu gyda chymunedau	Profiad byw neu broffesiynol sy'n berthnasol i'r cymunedau y mae NoFit State yn gweithio gyda nhw
Hyblyg a pharod i addasu, cyfforddus yn gweithio lle mae'r sefyllfa a'r blaenoriaethau'n newid yn aml Gallu gweithio mewn swyddfa brysur, cynllun agored mewn adeilad cymunedol bywiog	
Sgiliau cyfathrebu cryf ar lafar ac yn ysgrifenedig yn Saesneg Safonau uchel o ran llythrennedd a rhifedd	Gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg Gallu siarad ac ysgrifennu ieithoedd eraill y gymuned e.e. Arabeg, Cwrdeg, Pwyleg
Gallu gwneud tasgau corfforol i helpu i gynnal prosiectau a digwyddiadau Gallu gweithio mewn tîm ac yn annibynnol ar dasgau a ddirprwyir	Profiad o weithio ar ddigwyddiadau Cymhwyster Cymorth Cyntaf Trwydded yrru a hawl i yrru yn y DU

Safle yn y cwmni

- Rheolwr y Prosiectau Cymunedol fydd rheolwr llinell y Cydgysylltydd Cymunedol
- Byddwch yn cydweithio'n agos â thîm ehangach y Rhaglen Gymunedol, hyfforddwyr ICAT, Cefnogwyr Cymunedol, Artistiaid, a phartneriaid cymunedol.
- Byddwch yn cydweithio ag aelodau eraill o dîm craidd NFS.

Hyfforddiant

Efallai y bydd angen i'r sawl a benodir gael hyfforddiant ar nifer o raglenni a systemau meddalwedd; rhoddir hyfforddiant os bydd angen.

Trosolwg o'r Rôl

Cyflog: £14,664 y flwyddyn ar drefniant PAYE
(pro rata £29,328)

Oriau Gwaith: Rhan amser, 20 awr yr wythnos.
Swydd wyneb yn wyneb. Bydd y dyddiau'n cynnwys dydd Mawrth a dydd Iau ac un diwrnod arall. Bydd angen i chi a'ch rheolwr llinell gytuno ar yr oriau, gyda rhywfaint o hyblygrwydd gan y gall fod angen gweithio gyda'r nosau neu ar benwythnosau pan gynhelir digwyddiadau. Gellir gweithio oriau ychwanegol os bydd y ddwy ochr yn cytuno.

Gwyliau: 14 diwrnod y flwyddyn, yn cynnwys gwyliau banc
(pro rata 20 diwrnod ac 8 o wyliau banc y flwyddyn)

Contract: Mae hwn yn gontract cyfnod penodol am ddwy flynedd gyda'r posibilrwydd o'i ymestyn, ac mae cyfnod prawf o 6 mis

Lleoliad: Caerdydd – gweithio'n bennaf yn Four Elms, CF24 1LE, ac yng nghanolfannau partneriaid a llecynnau cymunedol ledled Sblot, Adamsdown a Thremorfa.

Cyflogir y sawl a benodir ar drefniant PAYE. Mae NoFit State yn gyflogwr Cyflog Byw ac mae'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth cyflogaeth a'r gofynion statudol fel safon ofynnol i adeiladu arni.

Y Broses Recriwtio

Dyddiadau allweddol

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 12pm, dydd Llun 9 Tachwedd 2026

Cyfweliadau: Wythnos yn dechrau 16 Tachwedd (wyneb yn wyneb)

Syniad o'r dyddiad dechrau: Cyn gynted â phosibl

Mae Nofit State yn ymdrechu i fod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal ac mae'n croesawu ceisiadau o bob rhan o'r gymuned.

Mae hygyrchedd yn rhan ganolog o'n hethos a chaiff hynny ei adlewyrchu yn ein trefniadau recriwtio.

Os teimlwch y gallech wneud y swydd hon ond nad ydych yn ticio pob bocs ym manyleb y person, neu os credwch y byddai arnoch angen tipyn o hyfforddiant neu gefnogaeth ychwanegol er mwyn llwyddo'n llwyr, byddem yn dal wrth ein bodd yn clywed wrthych. Rydym yn awyddus iawn i benodi'r person gorau ar gyfer y swydd ar sail gallu a photensial – a gallwn gynnig cyfleoedd ar gyfer cefnogaeth a datblygiad proffesiynol yn y swydd.

Rhowch wybod i ni os bydd angen i ni wneud rhyw addasiadau yn ystod y broses ymgeisio neu recrwitio a byddwn yn barod iawn i'ch cefnogi. Gallwch gysylltu â Lizzy Ferguson ar lizzy@nofitstate.org

Sut i ymgeisio

Gofynnir i chi lenwi'r ffurflen gais a'r ffurflen fonitro cyfle cyfartal. Cewch anfon eich CV atom hefyd os dymunwch, ond seilir y penderfyniadau ar y brif ffurflen gais.

Anfonwch y ceisiadau i jobs@nofitstate.org

Neu eu postio i: Community Co-ordinator position
NoFit State Circus
Four Elms Road
Caerdydd CF24 1LE

Rhaid i ymgeiswyr fod yn gymwys i weithio yn y Deyrnas Unedig

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn destun gwiriad DBS.